# Set y dyddiau'n estyn

## Mae'r Nos yn Ddu




*Trefniant Meurig Williams*

1. Mae’r nos yn ddu, a gwynt nid oes,  un seren sy’n y nef,
A ninnau’n croesi maes a bryn  i’r fan y gorwedd ef,
Holl obaith dyn yw ef.

2. Nid oes ogoniant yn y fan,  dim ond yr eiddo ef,
A’r golau mwyn ar wyneb Mair  fel gweddi tua’r nef,
O galon mam i’r nef.

3. Nid mangre geni t’wysog yw,  nid man i lawen lu,
Er hynny, clywodd nef a llawr  ganiadau’r engyl fry,
Orfoledd engyl fry.

4. O faban glân, mor brudd yw’n bron  gan wae sy’n gwywo’n gwedd:
O canwn iti’r bore hwn  ganiadau newydd hedd,
Ganiadau bythol hedd.

# Alawon fy Ngwlad




*Trefniant Meurig Williams*

1. Alawon fy ngwlad sy'n denu fy mryd
Rwy'n canu, rwy'n canu, er gwiethaf y byd.
Eu seiniau sydd bedd yn nyfnder bod oes,
Rwy'n canu, rwy'n canu er gweithaf pob croes.
Telyn hoff Gymru, dy dannau sydd hen,
Ti wnaethost ti brudd-der y glaf wisgo gwên.
Henaid athrylith y buost cyn hyn,
Peroriaeth y Cymry wna'r llygaid yn llyn.

2. Bu amser pan oedd tywysogion ein gwlad
Yn canu, yn canu wrth arwain y gad.
A llawr hen fardd â'i awen yn llu
Fu'n canu a chanu yn beraidd mewn bri.
Miwsig y bryniau fo'n ennyn y tân
Mae meibion hen Gymru heb golli eu cân.
Cofion fy nhadau sy'n felu i mi,
Boed telyn ac awen mewn llwyddiant a bri.

# Y Pibydd Du




*Trefniant Meurig Williams*